Healthcare Inspectorate Wales

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

DRIVING IMPROVEMENT THROUGH INDEPENDENT AND OBJECTIVE REVIEW

# Arolygiad Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (lle rhoddwyd rhybudd)

**Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru** Bron Brawf Cymru, Caerdydd

## Adran Delweddu Diagnostig

2 a 3 Tachwedd 2016

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** 0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk


ISBN Digidol 978-1-4734-8650-8

© Hawlfraint y Goron 2014

CONFIDENTIAL

# Cynnwys

1. Cyflwyniad ..... 2

2. Methodoleg ..... 3

3. Cyd-destun ..... 4

4. Crynodeb ..... 6

5. Canfyddiadau ..... 7

Ansawdd Profiad y Claf ..... 7

Cydymffurfio â RhYÏ(DM) ..... 9

Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ..... 21

6. Y Camau Nesaf ..... 22

Atodiad A ..... 23

CONFIDENTIAL

## 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd arolygiad o gydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYÏ(DM)) 2000 a diwygiadau rheoleiddio 2006 a 2011 ar 2 a 3 Tachwedd 2016. Roedd yr arolygiad yn ystyried yr adran delweddu diagnostig (radiograffeg) yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru yng Nghaerdydd, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae AGIC yn gyfrifol am fonitro cydymffurfiaeth â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) (RhYÏ(DM)) 2000 (a'u diwygiadau dilynol yn 2006 a 2011). Rydym yn gwneud hyn trwy raglen o asesu ac arolygu gwasanaethau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) ac yn y sectorau annibynnol sy'n defnyddio ymbelydredd ïoneiddio.

Mae'r rheoliadau'n gosod cyfrifoldebau ar ymarferwyr, gweithredwyr a'r rheiny sy'n atgyfeirio cleifion am ddatguddiadau meddygol, a chyflogwyr y tri grŵp hyn. O dan y rheoliadau, mae'n ofynnol i'r cyflogwr greu fframwaith ar gyfer cyflenwi ymbelydredd ïoneiddio mewn modd diogel, effeithlon ac effeithiol trwy ddarparu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig. Gall torri'r rheoliadau arwain at gyflwyno hysbysiadau gwahardd, hysbysiadau gwella, neu achosion troseddol.

Dylunnir y rheoliadau i sicrhau'r canlynol:

- Mae cleifion yn cael eu hamddiffyn rhag datguddiad anfwriadol, gormodol, neu anghywir i ymbelydredd meddygol ac, ym mhob achos, bod y risg sy'n gysylltiedig â'r datguddiad yn cael ei hasesu yn erbyn y budd clinigol (cyfiawnhad).
- Nid yw cleifion yn cael eu datguddio mwy nag sydd angen i gyflawni'r budd a ddymunir o fewn cyfyngiadau'r dechnoleg bresennol (optimeiddio).
- Nid yw ymarferwyr na gweithredwyr yn ymgymryd ag unrhyw ddatguddiad meddygol oni bai eu bod wedi cael eu hyfforddi'n briodol. Mae cyflogwyr yn sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu a bod cofnodion yr hyfforddiant hwn yn cael eu cynnal.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan bedair thema:

- Ansawdd Profiad y Claf
- Cydymffurfiaeth â RhYÏ(DM)
- Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

CONFIDENTIAL

## 2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Gwybodaeth a ddarperir gan yr adran yn Ffurflen Hunanasesu AGIC
- Trafodaethau â staff (lle bo'n briodol) ac uwch-reolwyr
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio ystafelloedd triniaeth a'r amgylchedd
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth.

Mae'r arolygiad yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn a'r graddau mae gwasanaethau'n bodloni safonau a rheoliadau hanfodol ar gyfer diogelwch ac ansawdd. Gall hefyd dynnu sylw at faterion ehangach ynglŷn ag ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir.

CONFIDENTIAL

## 3. Cyd-destun

### Cefndir

Mae Bron Brawf Cymru yn darparu gwasanaeth sgrinio am ganser y fron ar gyfer menywod Cymru. Mae'n rhan o Is-adran Sgrinio Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae sgrinio'r fron trwy ddefnyddio mamograffeg yn cynnwys defnyddio pelydrau-X.

### Gweithgarwch

Bob blwyddyn, mae'r adran delweddu diagnostig yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru yng Nghaerdydd yn cynnal oddeutu'r nifer canlynol o weithdrefnau mamograffeg ddigidol a biopsi.

**Mamograffeg (yn ystod 2015/16)**

- Sgrinio – 55,835 o fenywod
- Asesu – 3,335 o fenywod

**Biopsi â nodwydd/biopsi gwagle (yn ystod 2015/16)**

- Stereotactig – 644
- Uwchsain – 683 (nad yw'n ïoneiddio)
- Anhysbys – 26

Mae'r adran hefyd yn cynnal gweithdrefnau sganio'r fron uwchsain meddygol.

### Cyfarpar

Mae gan yr adran offer mamograffeg digidol ac offer sganio uwchsain. Mae gan ganolfan Caerdydd pedair uned mamograffeg ddigidol yn yr adran, a phum uned mamograffeg ddigidol symudol sy'n ymweld â safleoedd yn ne-ddwyrain Cymru.

### Yr amgylchedd

Roedd yr adran yn cynnwys man aros neilltuedig cyffredinol (cleifion sy'n cael eu sgrinio ar un ochr a chleifion sy'n cael asesiad ar y llall). Ar gyfer cleifion sy'n cael eu sgrinio, roedd ystafell belydr-X, ac iddi ei man aros ei hun, wedi'i leoli ar wahân i'r man aros cyffredinol. Ar gyfer cleifion sy'n cael asesiad, roedd ystafell

CONFIDENTIAL

aros arall ar gael, lle yr eid â chleifion i'r ystafelloedd pelydr-X eraill o fewn yr adran.

**Staffio**

O ran staffio, roedd y staff canlynol yn gweithio yn yr adran:

- 2.1 radiolegydd ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn
- 11.89 radiograffydd cyfwerth ag amser llawn (yn ogystal â 2 reolwr radiograffeg cyfwerth ag amser llawn, gydag amser clinigol yn cynnwys 0.3 cyfwerth ag amser llawn)
- 1 arbenigwr cysylltiol cyfwerth ag amser llawn / 0.65 meddyg arbenigol cyfwerth ag amser llawn
- 0.9 radiograffydd ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn
- 1 radiograffydd ymgynghorol arbenigol o dan hyfforddiant cyfwerth ag amser llawn
- 7.83 uwch-ymarferydd radiograffeg cyfwerth ag amser llawn (mae 2.7 o'r rhain ac 1 radiograffydd o dan hyfforddiant cyfwerth ag amser llawn yn ddehonglwyr delwedd)
- 5.53 ymarferydd cynorthwyol cyfwerth ag amser llawn
- 1 arbenigwr ffiseg feddygol cyfwerth ag amser llawn
- 0.5 meddyg arbenigol cyfwerth ag amser llawn – technegydd bronnau o dan hyfforddiant
- 2.2 gweithiwr cymorth delweddu clinigol cyfwerth ag amser llawn

Ar hyn o bryd, mae gan yr adran 0.34 swydd feddygol wag cyfwerth ag amser llawn a 0.5 swydd radiograffydd Fand 6 wag cyfwerth ag amser llawn (ar seibiant gyrfa ar hyn o bryd).

CONFIDENTIAL

## 4. Crynodeb

Dyma'r arolygiad RhYÏ(DM) cyntaf gan AGIC o'r adran delweddu diagnostig yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru, sy'n rhan o Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd AGIC yn canolbwyntio ei harolygiad ar ganolfan Caerdydd yn unig.

Cafodd yr arolygiad ei groesawu gan y rheolwyr a'r staff, a chwblhawyd a derbyniwyd yr holl ddogfennau gofynnol o fewn yr amserlenni a nodwyd.

Gwnaeth y tîm o fewn yr adran ymdrin â'r arolygiad mewn ffordd gadarnhaol iawn, ac roeddent yn awyddus i dderbyn adborth adeiladol i ategu eu dull ar gyfer cynnal safonau uchel o ofal a gwella'n barhaus. Cawsom groeso cadarnhaol hefyd gan gleifion, a roddodd adborth ar eu profiadau trwy holiaduron cleifion AGIC.

Gwelsom arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan staff uwch yr adran. O sgwrsio â staff ar bob lefel a gymerodd ran yn yr arolygiad, roedd yn amlwg eu bod yn ymroddedig iawn i ddysgu oddi wrth yr arolygiad, ac i wneud gwelliannau fel yr oedd yn briodol.

Ar draws yr adran, gwelsom staff yn trin claf â pharch a chwrteisi. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol hefyd ynghylch y dull o weithredu ac agwedd y tîm staff. Gwelsom fod yr adran yn lân ac yn daclus, ac roedd ymdrechion wedi'u gwneud i wneud y mannau aros yn gyfforddus ac yn groesawgar.

Y Prif Swyddog Gweithredol ar gyfer Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd y cyflogwr o dan RhYÏ(DM), ac roedd ganddo'r cyfrifoldeb terfynol dros sicrhau bod RhYÏ(DM) yn cael eu gweithredu yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru, Caerdydd.

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol o dan RhYÏ(DM), gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr a'u manylion adnabod fel y diffinnir o dan RhYÏ(DM). Fodd bynnag, daeth i'r amlwg bod unigolion yn gwneud swyddogaethau gweithredwyr nad oeddent, yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig, wedi derbyn yr hawl gan y cyflogwr i wneud hynny.

Ar ddiwedd yr arolygiad, gwnaethom roi adborth ar ein prif ganfyddiadau a meysydd i'w gwella. Bydd y tîm rheoli yn cyflwyno cynllun gwella mewn ymateb i'n canfyddiadau ni. Gellir gweld manylion hwn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

CONFIDENTIAL

## 5. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom staff yn trin cleifion gyda pharch a chwrteisi ym mhob un o'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw. Gwnaeth y cleifion sylwadau cadarnhaol hefyd ynghylch y dull o weithredu ac agwedd y tîm staff. Gwelsom fod yr adran yn lân ac yn daclus, ac roedd ymdrechion wedi'u gwneud i wneud y mannau aros yn gyfforddus ac yn groesawgar.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, i gasglu eu safbwyntiau ar y gwasanaethau a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 31 holiadur.

Nododd yr holl gleifion/gofalwyr a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth yr oeddent wedi'i dderbyn ac roeddent yn canmol dull gweithredu ac agwedd y tîm staff, safon glendid yr adrannau, a'r amseroldeb o ran cael eu gweld. Roedd y sylwadau'n cynnwys:

> *"Gwasanaeth cyflym a phroffesiynol iawn, staff caredig, gofalgar. Gwnaed imi deimlo'n gyfforddus ac yn ymlaciedig cyn gynted ag imi ddod i'r ystafell"*
>
> *"Gwasanaeth gwych"*
>
> *"Mae'r staff yn barod iawn eu cymwynas"*
>
> *"Hyfryd iawn, yn barod iawn eu cymwynas ac yn gyfeillgar (yn union yr hyn sydd ei angen arnoch chi!)"*
>
> *"Rwy'n ddiolchgar iawn bod y gwasanaeth hwn ar gael"*
>
> *"Roedd yn braf gweld y gwau yn yr ystafell aros. Mae wedi bod yn drawmatig ond mae staff wedi gwneud pethau mor rhwydd â phosibl"*
>
> *"Roedd pawb yn hyfryd ac yn cyflwyno eu hunain"*
>
> *"Diolch am egluro pam roeddwn i wedi cael fy ngalw'n ôl, ac i beth, a'r cymorth parhaus trwy gydol fy ymweliad"*

**Roedd yn amlwg o sylwadau cleifion bod yr agwedd, y dull o weithredu, a'r gwaith o ddarparu gwasanaeth o safon uchel ar draws yr holl adran.**

Yn ogystal â holiadur AGIC, roedd gan Fron Brawf Cymru ei holiadur ei hun i gasglu profiadau ei chleifion. Gwelsom y timau staff adrannol yn trin cleifion â

CONFIDENTIAL

pharch a charedigrwydd, a chafodd hyn ei adlewyrchu yn y sylwadau a gawsom gan gleifion. Roedd ciwbiclau newid ar gael ym mhob un o'r adrannau y gwnaethom ymweld â nhw. Roedd y rhain yn cynnig preifatrwydd i gleifion pe bai angen iddynt wisgo/tynnu gynau urddas.

Aethpwyd â ni ar daith o amgylch yr adran. Gwelsom fod pob man yn lân ac yn daclus. Dywedodd cleifion a oedd wedi cwblhau holiaduron wrthym eu bod yn fodlon ar lendid yr adran hefyd.

Roedd ymdrechion wedi'u gwneud i wneud yr ystafelloedd aros yn ddymunol i'r cleifion aros ynddynt – er enghraifft, gwelsom fod lluniau wedi'u harddangos a bod deunydd darllen ar gael. Roedd taflenni gwybodaeth ar gael yn rhwydd yn y mannau aros. Nododd y cleifion a wnaeth sylwadau eu bod o'r farn eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaethau sgrinio neu asesu.

Dywedodd y cleifion wrthym nad oeddent wedi profi unrhyw oedi wrth fynychu ar gyfer eu triniaeth. Ychwanegodd rhai cleifion eu sylwadau cadarnhaol eu hunain ynghylch amseroldeb o ran pryd cawsant eu gweld.

Roedd yr holl fannau cleifion a mannau clinigol wedi'u cyflwyno'n dda, yn lân ac yn daclus, ac roeddent yn cyfleu awyrgylch tawel oherwydd yr ystyriaeth ofalus a oedd wedi'i rhoi i'r llwybr cleifion. Roedd yn amlwg bod llawer o ystyriaeth wedi cael ei rhoi i'r gwaith o leihau pryder cleifion, trwy ddarparu llyfrau posau a bocs gwau ar gyfer cleifion yn y mannau aros.  Roedd sgriniau a oedd yn dangos lluniau wedi'u gosod hefyd yn yr ystafelloedd pelydr-X i gleifion eu gwylio wrth iddynt dderbyn eu gweithdrefn. Dywedwyd wrthym fod y staff yn yr adran wedi cyfrannu at hyn trwy roi eu ffotograffau eu hunain.

Gwelodd AGIC hefyd dystiolaeth o ddeunydd darllen ar gyfer cleifion trwy'r adran, ond nid oedd hyn yn llethol i gleifion.

Gwnaethom nodi bod system teledu cylch cyfyng ar waith yn yr adran. Er nad oedd ar waith yn y mannau clinigol, ni welsom unrhyw arwyddion i hysbysu cleifion bod system teledu cylch cyfyng ar waith.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid arddangos arwyddion yn eglur yn yr adran i hysbysu cleifion bod system teledu cylch cyfyng ar waith.***

CONFIDENTIAL

## *Cydymffurfio â RhYÏ(DM)*

**Gwelsom fod Bron Brawf Cymru wedi nodi cyflogwr o dan RhYÏ(DM). Roedd y ffurflen hunanasesu a gyflwynwyd i AGIC cyn ein harolygiad yn nodi'n eglur mai Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd y cyflogwr.**

Ar adeg ein harolygiad, roedd dwy swydd wag o fewn yr adran – radiograffydd Band 6 oherwydd seibiant gyrfa a swydd feddygol wag. Eglurodd staff fod cryn ymdrechion wedi'u gwneud i recriwtio i'r swydd feddygol. Fodd bynnag, roedd recriwtio i'r swydd hon wedi bod yn broblem oherwydd y nifer isel o radiolegwyr cymwysedig sydd â diddordeb yn y maes o arbenigedd hwn. Dywedwyd wrthym fod hyn yn broblem ar gyfer Cymru gyfan.

Roedd y cyflogwr wedi sefydlu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig fel sy'n ofynnol gan RhYÏ(DM), gyda'r nod o ddarparu gwasanaeth diogel ac effeithiol i gleifion. Gwnaethom nodi bod y gweithdrefnau a'r protocolau ar gyfer adnabod cleifion a menywod mewn oed i gael plant yn cael eu hadolygu a'u diwygio i hyrwyddo eglurder pellach ar gyfer staff yr adran. Roedd gweithdrefn ysgrifenedig ynglŷn â hawl atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr a'u manylion adnabod fel y diffinnir o dan RhYÏ(DM).

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau y cedwir dosau datguddiadau meddygol mor fach ag sy'n rhesymol bosibl**.**

<u>**Dyletswyddau'r cyflogwr**</u>

***Diffinnir y cyflogwr yn Rheoliad 2 (1) fel unrhyw berson naturiol neu gyfreithlon sydd, yng nghyswllt masnach, busnes neu fenter arall, yn cyflawni (ac eithrio fel gweithiwr cyflogedig), neu'n cyfarwyddo eraill i gyflawni, datguddiadau meddygol neu elfennau ymarferol mewn gweithfa radiolegol benodol.***

Yn ystod ein trafodaeth â staff, dywedwyd wrthym fod Prif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i ddynodi fel y cyflogwr. Gwelir hyn yn aml, ac mae'n cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol ar gyfer gweithredu deddfwriaeth RhYÏ(DM) fel y mae'n berthnasol i radioleg ddiagnostig a radioleg ymyriadol.

Fodd bynnag, nid oedd 'Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd' Bron Brawf Cymru yn nodi'n eglur mai'r Prif Weithredwr oedd y cyflogwr o dan RhYÏ(DM). Dylai'r ddogfen hon nodi bod y Prif Swyddog Gweithredol yn gyfreithiol gyfrifol

CONFIDENTIAL

am weithredu'r ymbelydredd ïoneiddio a ddefnyddid o fewn Bron Brawf Cymru. Rhaid i'r ddogfen hefyd amlinellu cyfrifoldebau'r cyflogwr er mwyn ei gwneud yn glir i'r holl staff sy'n gweithio yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru pwy yw'r cyflogwr.

Rhoddwyd strwythur sefydliadol Bron Brawf Cymru inni, a oedd yn dangos y llinellau adrodd, atebolrwydd a dirprwyo o ran RhYÏ(DM).

Gwelsom fod gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig wedi'u datblygu yn unol â deddfwriaeth RhYÏ(DM).

Gwelsom hefyd fod trefniadau ar waith ar gyfer gwaith sicrhau ansawdd (gan gynnwys dogfennau), i hyfforddi ymarferwyr a gweithredwyr yn ddigonol, ac i ymchwilio i ddigwyddiadau ac adrodd amdanynt. Dyletswyddau'r cyflogwr yw'r rhain i gyd, yn unol â RhYÏ(DM).

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i 'Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd' y cyflogwr ddatgan yn eglur pwy yw’r cyflogwr a beth yw ei gyfrifoldebau.***

**Gweithdrefnau a phrotocolau**

***Mae Rheoliad 4 (1) a 4 (2) yn ei wneud yn ofynnol i'r cyflogwr roi gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig ar waith.***

Cyn ein hymweliad arolygu, rhoddwyd copi inni o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd y cyflogwr.

Ar y cyfan, roedd y gweithdrefnau gweithredu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys gweithdrefnau'r cyflogwr fel sy'n ofynnol o dan RhYÏ(DM). Disgrifiodd staff uwch yr adran y broses ar gyfer adolygu gweithdrefnau a phrotocolau ysgrifenedig, a'r system ar gyfer hysbysu staff am unrhyw newidiadau a wnaed. Cadarnhaodd staff yr adran y gwnaethom siarad â nhw fod y system a ddisgrifiwyd yn eu hysbysu am newidiadau hefyd.

Roedd y broses ar gyfer rheoli fersiynau gwahanol o'r holl ddogfennau y gwnaethom eu hadolygu yn glir, gan ei gwneud yn hawdd nodi'r weithdrefn gyfredol y dylai staff ei dilyn.

Wrth inni adolygu Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd y cyflogwr, daeth i'r amlwg bod y weithdrefn ar gyfer adnabod cleifion yn cael ei hadolygu ac yn aros i gael ei chymeradwyo i sicrhau ei bod yn llawn adlewyrchu'r arferion cyfredol ac yn hyrwyddo rhagor o eglurder ar gyfer y staff sy'n ei defnyddio. Gellir gweld ein canfyddiadau penodol ynglŷn â'r materion hyn yn nes ymlaen yn yr adroddiad o dan yr adran hon.



CONFIDENTIAL

Mae angen croesgyfeirio'r holl weithdrefnau y cyfeiriwyd atynt yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd â'r System Rheoli Ansawdd yn eglur, er mwyn galluogi staff i gael mynediad at weithdrefn yn gyflym pe bai angen.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid cyfeirio'n eglur at yr holl weithdrefnau yn y System Rheoli Ansawdd sy'n cael eu nodi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd.***

**Hysbysiadau am ddigwyddiadau**

***Mae Rheoliad 4 (5) yn datgan, pan fydd digwyddiad wedi bod lle mae unigolyn wedi bod yn agored i lawer mwy o ymbelydredd ïoneiddio nag a fwriadwyd wrth dderbyn datguddiad meddygol, dylai'r sefydliad gofal iechyd ei archwilio ac adrodd i'r awdurdod priodol ynglŷn â hyn.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer adrodd, cofnodi ac ymchwilio i ddigwyddiadau o dan RhYÏ(DM).

Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn disgrifio pan fydd yn rhaid adrodd am ddigwyddiad, a sut y dylid gwneud hyn, ynghyd â'r wybodaeth y mae angen ei chyflwyno trwy system adrodd electronig yr ymddiriedolaeth (DATIX). Mae angen hysbysu AGIC am rai digwyddiadau ac roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn adlewyrchu hyn.

**Lefelau cyfeirio diagnostig**

***Mae Rheoliad 4 (3) (c) yn ei wneud yn ofynnol i'r cyflogwr sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig (DRL) ar gyfer archwiliadau diagnostig radio. Ni ddisgwylir i weithdrefnau safonol fynd y tu hwnt i'r rhain wrth weithredu arferion da a chyffredin o ran perfformiad diagnostig a thechnegol.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer monitro lefelau cyfeirio diagnostig a gwelsom fod y cyflogwr wedi sefydlu lefelau cyfeirio diagnostig ar gyfer archwiliadau a wneir yn yr adran.

Yn ogystal â'r ffaith bod lefelau cyfeirio diagnostig cenedlaethol ar gael, gwelsom fod lefelau cyfeirio diagnostig lleol wedi'u sefydlu hefyd i ystyried y boblogaeth leol a'r offer a ddefnyddir. Gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arfer nodedig. Roedd lefelau cyfeirio diagnostig lleol ar gael ac yn weladwy yn yr adran.

Gwnaethom edrych ar sampl o nifer o gofnodion cleifion a gweld bod dosau datguddiadau wedi'u cofnodi at ddibenion archwilio a monitro. Roedd y staff yn

CONFIDENTIAL

ymwybodol o weithdrefn y cyflogwr i'w dilyn pe bai'r lefel cyfeirio diagnostig ar gyfer menyw o faint arferol yn rhy uchel yn rheolaidd.

## Hawl

***Mae Rheoliad 2 (1) yn ei wneud yn ofynnol bod gan ddeiliaid dyletswyddau, yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr, hawl i gynnal y tasgau a wneir ganddynt. Mae Rheoliadau 11 (1) ac 11 (4) yn datgan y mae'n rhaid i ymarferwyr a gweithredwyr fod wedi'u hyfforddi'n briodol hefyd, ac mae'n rhaid i'r cyflogwr gadw cofnodion hyfforddiant cyfredol o'r hyfforddiant hwn.***

Mae RhYÏ(DM) yn diffinio pedwar deiliad dyletswyddau, sef y cyflogwr, yr atgyfeiriwr, yr ymarferydd a'r gweithredwr.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer hawl ac adnabod atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr fel y diffinnir o dan RhYÏ(DM). Roedd deiliaid y dyletswyddau hyn yn cael eu dynodi fesul grŵp staff, ac roedd y weithdrefn yn nodi cwmpas yr arfer ar gyfer pob grŵp staff a'r lefel hyfforddiant ddisgwyliedig trwy ddefnyddio matrics hawl.

Roedd y matrics hawl a oedd ar waith yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Roedd hawl fesul grŵp staff. Argymhellwyd bod y pennawd 'atgyfeiriwr, ymarferydd a gweithredwr' yn y tablau yn y '*weithdrefn i ddynodi unigolion sy'n meddu ar yr hawl i weithredu fel atgyfeiriwr, ymarferydd neu weithredwr*' (Gweithdrefn B) yn cael ei ddiwygio i ddweud 'wedi derbyn hawl gan' yn hytrach na 'wedi'i gymeradwyo gan' er mwyn sicrhau eglurder.

Roedd defnyddio taflenni derbyn hawl unigol yn nodi'n eglur cwmpas hyfforddiant ymarfer a hawl pob aelod o staff. Roedd y taflenni hyn yn cael eu cadw mewn ffolder ar y safle, a oedd yn gwneud eu lleoli'n hawdd pe bai angen ar staff gael mynediad atynt

Yn ystod ein trafodaethau â staff uwch, ac wrth inni adolygu'r matrics hawl, daeth i'r amlwg bod unigolion yn gwneud swyddogaethau gweithredwyr nad oeddent, yn ôl y weithdrefn ysgrifenedig, wedi derbyn yr hawl gan y cyflogwr i wneud hynny. Er enghraifft, roedd gweithdrefnau ymyriadol megis biopsïau yn cael eu cynnwys yn y matrics hawl ymarferwyr, ond nid oeddent yn cael eu cynnwys yn y matrics gweithredwyr. Trafodwyd yr enghraifft o gynnal biopsïau. Er eu bod yn cael eu cynnal gan ymarferwyr uwch a radiolegwyr ymgynghorol, roedd y rhain yn dasgau gweithredwyr a oedd yn gysylltiedig â'r datguddiad, ac o'r herwydd mae angen cynnwys y grwpiau staff hyn yn y tabl hawl gweithredwyr.

CONFIDENTIAL

Gwelsom enghraifft o gofnodion hyfforddi ar gyfer staff ar **bob** gradd a oedd yn gweithio yn yr adran sgrinio’r fron. Roedd y cofnodion hyn yn dangos bod deiliaid y dyletswyddau hyn wedi cwblhau'r hyfforddiant priodol yn llwyddiannus, ac wedi cael eu hystyried yn gymwys i ymgymryd â'r tasgau hyn gan aelod profiadol o'r tîm clinigol. Wedyn, roeddent wedi derbyn yr hawl fel deiliaid dyletswydd i gynnal y tasgau a oedd eu hangen.

Er nad yw'n ofyniad RhYÏ(DM), ond yn unol â matrics hyfforddiant gorfodol yr adran a oedd yn cael ei gynnal â llaw, argymhellwyd bod yr adran yn llunio matrics hyfforddiant clinigol a fyddai'n darparu cofnod a throsolwg eglur o statws hyfforddi'r holl staff clinigol mewn un ddogfen. Gallai hyn gynnwys cwmpas arfer unigolyn a chofnod o'r hyfforddiant a gwblhawyd/cymwysterau, gan gynnwys dyddiadau hyfforddi a llofnod yr hyfforddwr a'r hyfforddai.

Gwelsom hefyd dystiolaeth o ddysgu parhaus yn ffeiliau datblygiad proffesiynol parhaus unigolion.

Yn ystod ein trafodaethau â staff, cawsom ar ddeall nad oedd y Cofnod Staff Electronig, a ddylai ddiweddaru a chofnodi hyfforddiant staff ar ôl iddynt gwblhau hyfforddiant gorfodol yn llwyddiannus, yn adlewyrchu statws hyfforddi cyfredol yn gywir.

Gwelsom fod tîm rheoli uwch radiograffeg wedi cynnal matrics hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff, a chafodd hyn ei nodi'n arfer nodedig. Fodd bynnag, wrth inni adolygu'r matrics hyfforddiant gorfodol hwn, daeth i'r amlwg nad oedd staff wedi cwblhau eu hyfforddiant codi a chario gorfodol hyd yn hyn, neu wedi ei ddiweddaru o ran hynny. Eglurwyd inni yn ystod ein trafodaethau â'r tîm rheoli yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru, er eu bod wedi gwneud nifer o geisiadau am ddyddiadau ar gyfer hyfforddiant codi a chario, nid oedd y rhain wedi cael eu darparu.   Mae angen rhoi sylw i'r mater hwn i sicrhau diogelwch y staff sy'n gweithio yn yr adran.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ynglŷn â hawl a dynodi deiliaid dyletswyddau, i nodi'n glir grwpiau staff, cwmpas yr arfer, a'r gofynion o ran hyfforddiant ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr sydd â hawl.***

***Er nad yw'n ofyniad RhYÏ(DM), dylid darparu Hyfforddiant Codi a Chario Gorfodol ar gyfer pob aelod o staff i sicrhau eu diogelwch pan fyddant yn gweithio yn yr adran.***

***Dylid llunio matrics hyfforddiant clinigol i ddarparu trosolwg cyflawn o hyfforddiant staff, gan gynnwys hyfforddiant clinigol a hyfforddiant ar***

CONFIDENTIAL

***offer, cymwyseddau a chwmpas ymarfer, ac i nodi pan fydd angen diweddariadau a phan fydd y rhain yn cael eu cynnal.***

**Meini prawf atgyfeirio**

***Mae Rheoliad 4 (3) (a) yn nodi y dylai'r cyflogwr sefydlu argymhellion mewn perthynas â'r meini prawf atgyfeirio ar gyfer datguddiadau meddygol, gan gynnwys dosau ymbelydredd, a dylai sicrhau eu bod ar gael i'r atgyfeiriwr.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ynghylch atgyfeiriadau ar gyfer datguddiadau meddygol. Roedd y weithdrefn ysgrifenedig yn nodi'n glir sut i wneud atgyfeiriadau ar gyfer datguddiadau meddygol.

Mae pob menyw sy'n byw yng Nghymru yn gymwys ar gyfer sgrinio'r fron gan Fron Brawf Cymru o flwyddyn ei phen-blwydd pum deg oed. Mae atgyfeiriadau ar gyfer sgrinio'n cael eu cynnal trwy gaffael ym manylion menywod cymwys o'r System Sgrinio'r Fron Genedlaethol. Mae llythyr gwahodd yn cael ei anfon wedyn yn eu gwahodd i fynychu apwyntiad sgrinio'r fron. Mae menywod asymptomatig rhwng 50 a 70 mlwydd oed yn cael eu gwahodd i gael eu sgrinio bob tair blynedd.

Mae menywod mae eu mamogramau sgrinio'n nodi bod angen archwiliad pellach yn cael eu hatgyfeirio at un o'r pedair canolfan asesu ledled Cymru. Mae'r darllenydd delwedd sy'n gweithredu fel canolwr neu arweinydd consensws yn cael ei nodi fel yr atgyfeiriwr, ac mae'r wybodaeth hon yn cael ei chofnodi ar system gyfrifiadurol Bron Brawf Cymru.

Ar gyfer mamogramau lleol, lle mae nodwydd fiopsi'n cael ei mewnosod neu lle mae angen gwifren arwain o dan reolaeth famograffeg, yr atgyfeiriwr yw'r aelod o'r tîm meddygol neu'r tîm llawfeddygol.

Gall menywod dros 35 mlwydd oed y mae'r gwasanaeth geneteg wedi nodi bod ganddynt risg ganolig neu uchel o ganser y fron yn ôl eu hanes teuluol fod yn gymwys ar gyfer sgrinio'r fron. Mae genetegwyr ymgynghorol sydd â hawl o dan weithdrefn meddu ar hawl yr ymddiriedolaeth yn gweithredu fel yr atgyfeiriwr yn yr achosion hyn, ac mae'n rhaid iddynt ddarparu gwybodaeth ddigonol a manwl er mwyn i'r weithdrefn gael ei chyfiawnhau.

Gall menywod dros 30 mlwydd oed y mae'r haematolegydd neu'r oncolegydd wedi nodi bod ganddynt risg uchel o ganser y fron yn ôl sgrinio am y grŵp Hodgkin fod yn gymwys ar gyfer sgrinio'r fron. Mae'r haematolegydd/oncolegydd ymgynghorol yn y matrics hawl yn gweithredu fel yr atgyfeiriwr yn yr achosion hyn, ac mae'n rhaid iddo ddarparu gwybodaeth ddigonol a manwl er mwyn i'r weithdrefn gael ei chyfiawnhau.



CONFIDENTIAL

Mae atgyfeiriadau ar gyfer gweithdrefnau mamograffeg eraill megis apwyntiadau dilynol yn ei gwneud yn ofynnol cwblhau ffurflen gais Adran Delweddu Bron Brawf Cymru. Rhaid i'r atgyfeiriadau hyn gynnwys enw, cyfeiriad a dyddiad geni'r claf, gwybodaeth glinigol ddigonol, ac enw a llofnod yr atgyfeiriwr. Yn yr achosion hyn, mae'n rhaid i'r atgyfeiriwr ddarparu gwybodaeth ddigonol a manwl er mwyn i'r weithdrefn gael ei chyfiawnhau.

**Cyfiawnhau datguddiadau meddygol unigol**

***Mae Rheoliadau 6 (1) (a) a 6 (1) (b) yn ei gwneud yn ofynnol bod pob datguddiad meddygol yn cael ei gyfiawnhau a'i awdurdodi cyn y datguddiad. Yr ymarferydd sy'n gyfrifol am gyfiawnhau'r datguddiad meddygol. Ffordd o ddangos bod datguddiad meddygol wedi cael ei gyfiawnhau yw awdurdodiad, a gallai awdurdod gael ei roi gan weithredwr pan fydd canllawiau cyfiawnhau'n cael eu defnyddio.***

Dywedodd Bron Brawf Cymru fod yr holl radiograffwyr sy'n gweithio yn yr adran, unwaith roeddent wedi'u hyfforddi ac yn cael eu hystyried yn gymwys, yn meddu ar yr hawl i weithredu fel gweithredwyr, gan weithio yn unol â chanllawiau, i gyfiawnhau ac awdurdodi datguddiadau.

Fodd bynnag, roedd yn anodd nodi'r canllawiau cyfiawnhau a nodwyd gan eu bod wedi'u hymgorffori yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. Mae angen i'r canllawiau cyfiawnhau hyn fod yn fwy amlwg, yn eglur ac yn haws i staff eu cyrraedd.

Mae angen i'r canllawiau cyfiawnhau nodi hefyd pwy yw'r awdur, a chael eu llofnodi gan yr unigolyn hwnnw, gan mai ef yw'r unigolyn sy'n ymgymryd â'r cyfrifoldeb am y datguddiad. Dylai'r gweithredwr sy'n awdurdodi'r datguddiad wybod pwy yw'r ymarferydd ar gyfer y datguddiad hwnnw. Mae angen i'r canllawiau hyn gael eu dyddio a'u llofnodi gan yr ymarferydd a'u hadolygu'n rheolaidd. Roedd staff yn glir eu bod yn weithredwyr a oedd yn cyfiawnhau'r datguddiad yn unol â'r canllawiau, ond nid oeddent yn gallu nodi ym mha le roedd y canllawiau na phwy oedd yr ymarferydd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn y cyflogwr ynghylch cyfiawnhau ac awdurdodi fel sy'n briodol, er mwyn egluro'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau o dan y canllawiau. Rhaid gwneud y weithdrefn hon ar gael i staff a'i hesbonio iddynt yn eglur.***

**Adnabod cleifion**

CONFIDENTIAL

***Mae Atodiad 1 (a) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i adnabod yn gywir yr unigolyn a fydd yn cael ei ddatguddio i ymbelydredd*** ïoneiddio.

Roedd gan y cyflogwr weithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer adnabod cleifion. Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, roedd y weithdrefn ar gyfer adnabod cleifion wrthi'n cael ei hadolygu. Rhoddwyd copi o'r weithdrefn ddiwygiedig inni a oedd yn adlewyrchu arferion cyfredol yn well. Er nad oedd y weithdrefn wedi cael ei chymeradwyo a'i dosbarthu i bob aelod o staff ar y pryd, dywedwyd wrthym y gwneid hyn ar unwaith.

Roedd y weithdrefn ddiwygiedig yn nodi'n glir y grwpiau staff hynny a oedd yn gyfrifol am gadarnhau manylion adnabod cleifion ac yn disgrifio'n fanwl y gweithdrefnau i'w dilyn. Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig yn nodi'r trefniadau lle byddai dau weithredwr yn cymryd rhan mewn cynnal gweithdrefn. Roedd y gweithdrefnau ysgrifenedig hefyd yn disgrifio'r camau gweithredu i'w cymryd pan na fyddai cleifion yn gallu cadarnhau pwy oeddent – er enghraifft, oherwydd nam ar y synhwyrau neu ddiffyg galluedd meddyliol.

Roedd y staff adrannol y gwnaethom siarad â nhw'n gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn, a chawsom sicrwydd eu bod yn ymwybodol o'r camau i'w cymryd pe bai unrhyw anghysondebau'n cael eu canfod.

Roeddem hefyd yn gallu gwirio nifer o ffurflenni cyfeirio wedi'u cwblhau, a gwnaethom nodi bod y broses adnabod cleifion yn cael ei chofnodi.

Gwnaethom argymell bod copi o'r weithdrefn yn cael ei roi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd, yn hytrach na dim ond cyfeiriad at lawlyfr ansawdd Bron Brawf Cymru.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cymeradwyo gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer adnabod cleifion, a'i dosbarthu i bob aelod o staff, a rhoi copi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd.***

CONFIDENTIAL

**<u>Menywod mewn oed i gael plant</u>**

***Mae Atodlen 1 (d) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i holi menywod sydd mewn oed i gael plant er mwyn darganfod a yw menyw'n feichiog neu a allai fod yn feichiog.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer holi menywod sydd mewn oed i gael plant. Pwrpas hyn yw sefydlu a yw'r unigolyn yn feichiog neu a allai fod yn feichiog, neu'n bwydo ar y fron.

Fodd bynnag, ar adeg ein harolygiad, roedd y weithdrefn ar gyfer menywod mewn oed i gael plant wrthi'n cael ei hadolygu. Rhoddwyd copi o'r weithdrefn ddiwygiedig inni, a oedd yn adlewyrchu arferion cyfredol yn well. Er nad oedd y weithdrefn wedi cael ei chymeradwyo a'i dosbarthu i bob aelod o staff ar y pryd, dywedwyd wrthym y gwneid hyn ar unwaith. Fodd bynnag, roedd y tîm arolygu yn fodlon bod y weithdrefn yn cael ei dilyn, a chafodd y broses ynglŷn â sut i wirio a yw menyw sydd mewn oed i gael plant yn feichiog ei chadarnhau gyda radiograffwyr yn ystod yr arolygiad.

Unwaith eto, gwnaethom argymell bod copi o'r weithdrefn yn cael ei roi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd, yn hytrach na dim ond cyfeiriad at lawlyfr ansawdd Bron Brawf Cymru. Gofynnwyd i staff ddangos y copi inni yn llawlyfr ansawdd Bron Brawf Cymru, ond nid oeddent yn gallu dod o hyd iddo.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen cymeradwyo gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer menywod mewn oed i gael plant, a'i dosbarthu i bob aelod o staff, a rhoi copi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd.***

**Datguddiadau meddygol-gyfreithiol**

***Mae Atodlen 1 (c) yn nodi y dylai gweithdrefnau ysgrifenedig ar gyfer datguddiadau meddygol gynnwys gweithdrefnau i'w dilyn mewn achos o ddatguddiadau meddygol-gyfreithiol.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig yn ymwneud â datguddiadau meddygol-gyfreithiol.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd datguddiadau meddygol-gyfreithiol yn cael eu cynnal yn yr adran ac roedd hyn wedi'i nodi'n eglur yn y weithdrefn.

**Optimeiddio**

***Mae Rheoliad 7 (1) yn ei wneud yn ofynnol bod dosau ar gyfer yr holl ddatguddiadau meddygol yn cael eu cadw mor isel ag sy'n rhesymol ymarferol a chyson at y diben a fwriedir.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ynghylch optimeiddio datguddiadau.



CONFIDENTIAL

Roedd yn nodi'r trefniadau ar gyfer sicrhau cadw datguddiadau meddygol mor isel ag sy'n ymarferol bosibl (cyfeirir at hyn yn aml fel ALARP). Gwelsom y manteisiwyd ar gyfleoedd i optimeiddio datguddiadau meddygol ac roedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y cofnodion a welsom.

Yn ystod trafodaethau, gwnaeth Bron Brawf Cymru ddisgrifio nifer o brosesau optimeiddio y gellir myfyrio arnynt a'u hehangu yn y weithdrefn er mwyn dangos eu harferion da.

**<u>Gwerthuso clinigol</u>**

***Mae Rheoliad 7 (8) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau y cofnodir gwerthusiad clinigol o ganlyniad pob datguddiad meddygol yn unol â gweithdrefnau'r cyflogwr.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ynglŷn â gwerthuso datguddiadau.

Roedd hon yn amlinellu'r trefniadau a'r grŵp staff a oedd yn meddu ar yr hawl i asesu a chofnodi canlyniad datguddiadau meddygol. Fodd bynnag, pan wnaethom siarad â'r staff clinigol a oedd yn darllen y delweddau (gwerthuso clinigol), gwnaethant egluro'r broses, a oedd yn gwneud y broses yn gliriach o lawer. Gellid ehangu'r weithdrefn, felly, i ddangos pwy sy'n gwneud y gwerthuso clinigol a sut maent yn adrodd am yr holl ddelweddau trwy ddefnyddio gweithdrefn ddall dwbl (sy'n arfer nodedig) a beth sy'n digwydd pan fydd set o ddelweddau'n mynd at ganolwr.

Mae'r holl ddelweddau sgrinio'n cael eu darllen gan o leiaf dau ddarllenydd delweddau, sy'n paratoi adroddiad clinigol a'i gofnodi ar system gyfrifiadurol genedlaethol Sgrinio'r Fron.

Mae gan yr adran system ar waith sy'n sicrhau bod adroddiad clinigol ar gyfer yr holl ddelweddau sgrinio, y cyfeirir ati yn y 'Protocol Canlyniadau Cywir'. Fodd bynnag, gellid ehangu hon hefyd a'i chynnwys yn y weithdrefn.

Mae gwerthuso clinigol yn swyddogaeth gweithredwr â hawl, a chafodd hyn ei nodi'n eglur ym matrics hawl gweithredwyr.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid adolygu gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gwerthusiadau clinigol i gynnwys pwy sy'n cynnal y gwerthusiad clinigol, sut maent yn adrodd am yr holl ddelweddau trwy ddefnyddio'r weithdrefn ddall dwbl, a beth sy'n digwydd pan fydd set o ddelweddau'n mynd at ganolwr.***



CONFIDENTIAL

**Rhaglenni ymchwil feddygol**

***Mae Atodiad 1(h) RhYÏ(DM) yn ei gwneud yn ofynnol bod gweithdrefn ar waith ar gyfer datguddiadau meddygol a wneir fel rhan o raglenni ymchwil.***

Roedd gan y cyflogwr weithdrefn ysgrifenedig ynglŷn â rhaglenni ymchwil feddygol.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd datguddiadau meddygol sy'n rhan o raglenni ymchwil yn cael eu cynnal yn yr adran ar adeg ein harolygiad.

Dangosodd trafodaethau pellach fod data cleifion o Ganolfan Bron Brawf Cymru, tan yn ddiweddar (mae'r treial wedi dod i ben), yn cael ei ddefnyddio ar gyfer y treial hanes teuluol cenedlaethol FH02. Byddai'r menywod hyn wedi cael eu galw ar gyfer sgrinio hanes teuluol yn rhan o brosesau Bron Brawf Cymru, ac yna roedd y data'n cael ei ddefnyddio yn y treial yn unig.

Byddai'n rhaid adolygu/diweddaru'r weithdrefn ymchwil, pe bai Bron Brawf Cymru yn cael ei chynnwys mewn treialon ymchwil yn y dyfodol, i adlewyrchu manylion y treial a'r prosesau.

**Archwiliadau clinigol**

***Mae Rheoliad 8 yn nodi y dylai gweithdrefnau'r cyflogwr gynnwys darpariaeth ar gyfer cynnal archwiliadau clinigol, fel sy'n briodol.***

Roedd y wybodaeth a ddarparwyd i AGIC cyn ein harolygiad yn cyfeirio at nifer o archwiliadau clinigol a gynhaliwyd ar draws yr adran.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom dystiolaeth bod rhaglen archwilio gynhwysfawr yn cael ei chynnal yn rheolaidd, a oedd ei hangen i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau ansawdd llym ar gyfer rhaglen sgrinio'r fron y GIG. Yn benodol, nodwyd bod yr hunanasesiad addysgol 'Performs' a'r cynllun hyfforddi ar gyfer gweithwyr sgrinio'r fron proffesiynol, a'r broses o adrodd trwy ddefnyddio gweithdrefn ddall dwbl a oedd yn cael ei chynnal gan Fron Brawf Cymru yn arferion nodedig.

Mae'r adran hefyd yn gweithredu system adolygu gan gymheiriaid lle mae staff yn arsylwi ac yn asesu arfer clinigol eu cydweithwyr yn flynyddol, gan gynnwys ymarferwyr cynorthwyol. Mae hyn yn cynnwys asesu gofal cleifion, arferion technegol a chlinigol, a'r wybodaeth a roddir i'r unigolyn sy'n cael ei archwilio.

Mae galw cleifion yn ôl am resymau technegol ac ystadegau ailwneud mamogramau are gyfer pob aelod unigol o staff hefyd yn cael eu hadolygu'n

CONFIDENTIAL

fisol, ac yn cael eu defnyddio'n sbardun ar gyfer hyfforddiant diweddaru neu ddatblygiad pellach. Gwnaethom nodi bod hyn yn enghraifft o arfer nodedig.

**Cyngor arbenigol**

***Mae Rheoliadau 9 (1) a 9 (2) yn nodi y dylai'r cyflogwr sicrhau bod arbenigwr ffiseg feddygol ar gael yn ystod arferion safonol meddygaeth niwclear therapiwtig, ac yn ystod arferion diagnostig meddygaeth niwclear, ac y dylai gymryd rhan fel sy'n briodol ym mhob datguddiad meddygol radiolegol arall.***

Roedd arbenigwr ffiseg feddygol llawn amser ar gael i roi cyngor ynglŷn â phob datguddiad meddygol a gynhaliwyd yn yr adran ac ar draws Bron Brawf Cymru. Roedd yr arbenigwr ffiseg feddygol hefyd yn goruchwylio'r offer mamograffeg o fewn yr adran, ac yn darparu mewnbwn ynglŷn ag optimeiddio, gosod, gwirio derbyniad a sicrhau ansawdd parhaus fel sy'n briodol.

**Cyfarpar**

***Mae Rheoliad 10 yn ei gwneud yn ofynnol bod gan y cyflogwr restr o gyfarpar cyfredol sy'n cynnwys enw'r gwneuthurwr, rhif y model, y rhif cyfresol, blwyddyn cynhyrchu'r cyfarpar, a blwyddyn gosod y cyfarpar.***

Rhoddodd y cyflogwr restr gyfredol o'r offer radiolegol a oedd yn cael eu defnyddio yn yr adran. Roedd y rhestr yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan RhYÏ(DM).

CONFIDENTIAL

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom arweinyddiaeth gref ac effeithiol yn cael ei darparu gan staff uwch clinigol yr adran, ac roedd yn amlwg bod y tîm amlddisgyblaethol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda.**

O sgwrsio â staff ar bob lefel a gymerodd ran yn yr arolygiad, roedd yn amlwg eu bod yn ymroddedig iawn i ddysgu oddi wrth yr arolygiad, ac i wneud gwelliannau fel yr oedd yn briodol.

Yn ystod ein cyfarfodydd adborth llafar, gwnaethom siarad ag staff uwch yr adran, aelod o dîm gweithredol yr ymddiriedolaeth, a Phrif Swyddog Gweithredol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd pob un ohonynt yn barod i dderbyn ein sylwadau a gwnaethant ddangos eu bod yn ymroddedig i ddysgu o ganlyniad i'r arolygiad ac i wneud gwelliannau fel sy'n briodol.

CONFIDENTIAL

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella i ymdrin â'r argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn yr adran delweddu diagnostig yng Nghanolfan Bron Brawf Cymru, Caerdydd, yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni. Dylai Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru sicrhau nad yw canfyddiadau'r arolygiad hwn yn systemig ar draws canolfannau bron brawf eraill yng Nghymru.

Bydd y cynllun gwella, ar ôl ei gytuno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

CONFIDENTIAL

*Atodiad A*

## RhYÏ(DM): Cynllun Gwella

**Sefydliad:** Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Adran:** Canolfan Bron Brawf Cymru, Caerdydd

**Dyddiad yr Arolygiad:** 2 a 3 Tachwedd 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| 9 | Rhaid arddangos arwyddion yn eglur yn yr adran i hysbysu cleifion bod system teledu cylch cyfyng ar waith. | | | |
| | **Cydymffurfiad â RhYÏ(DM)** | | | |
| 10 | Mae angen i 'Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd' y cyflogwr ddatgan yn eglur | | | |

CONFIDENTIAL

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | pwy yw'r cyflogwr a beth yw ei gyfrifoldebau. | | | |
| 11 | Rhaid cyfeirio'n eglur at yr holl weithdrefnau yn y System Rheoli Ansawdd sy'n cael eu nodi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. | | | |
| 13 | Dylid adolygu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ynglŷn â hawl a dynodi deiliaid dyletswyddau, i nodi'n glir grwpiau staff, cwmpas yr arfer, a'r gofynion o ran hyfforddiant ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr a gweithredwyr â hawl. | | | |
| 13 | Er nad yw'n ofyniad RhYÏ(DM), dylid darparu Hyfforddiant Codi a Chario Gorfodol ar gyfer pob aelod o staff i sicrhau eu diogelwch pan fyddant yn gweithio yn yr adran. | | | |
| 13 | Dylid llunio matrics hyfforddiant clinigol i ddarparu trosolwg cyflawn o hyfforddiant staff, gan gynnwys hyfforddiant clinigol a hyfforddiant ar offer, cymwyseddau a chwmpas ymarfer, ac i nodi pan fydd angen | | | |

CONFIDENTIAL

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | diweddariadau a phan fydd y rhain yn cael eu cynnal. | | | |
| 15 | Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn y cyflogwr ynghylch cyfiawnhau ac awdurdodi fel sy'n briodol, er mwyn egluro'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau o dan y canllawiau. Rhaid gwneud y weithdrefn hon ar gael i staff a'i hesbonio iddynt yn eglur. | | | |
| 16 | Mae angen cymeradwyo gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer adnabod cleifion, a'i dosbarthu i bob aelod o staff, a rhoi copi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. | | | |
| 17 | Mae angen cymeradwyo gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer menywod mewn oed i gael plant, a'i dosbarthu i bob aelod o staff, a rhoi copi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. | | | |
| 18 | Dylid adolygu gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gwerthusiadau clinigol i gynnwys pwy sy'n | | | |

CONFIDENTIAL

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | cynnal y gwerthusiad clinigol, sut maent yn adrodd am yr holl ddelweddau trwy ddefnyddio gweithdrefn ddall dwbl, a beth sy'n digwydd pan fydd set o ddelweddau'n mynd at ganolwr. | | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| - | Nid oes angen cynllun gwella. | | | |

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

**Enw (llythrennau bras):** ..............................................................................................

**Teitl:** ..............................................................................................

**Dyddiad:** ..............................................................................................

CONFIDENTIAL

*Atodiad A*

## RhYÏ(DM): Cynllun Gwella

## Sefydliad: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Adran: Bron Brawf Cymru, Caerdydd

## Dyddiad yr Arolygiad: 2 a 3 Tachwedd 2016

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | **Ansawdd Profiad y Claf** | | | |
| 8 | Mae angen arddangos arwyddion yn eglur yn yr adran i hysbysu cleifion bod system teledu cylch cyfyng ar waith. | Arddangos yr arwyddion priodol. | Dean Phillips | Ionawr 2017 |
| | **Cydymffurfiaeth â RhYÏ(DM)** | | | |
| 10 | Mae angen i 'Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd' y cyflogwr ddatgan yn eglur | Ychwanegu datganiad eglur am y cyflogwr yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | Anna Burch | Mehefin 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | pwy yw’r cyflogwr a beth yw ei gyfrifoldebau. | | | |
| 11 | Rhaid cyfeirio'n eglur at yr holl weithdrefnau yn y System Rheoli Ansawdd sy'n cael eu nodi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. | Cynnwys cyfeiriadau a hypergysylltiadau â gweithdrefnau perthnasol yn y Llawlyfr Ansawdd yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | Anna Burch | Mehefin 2017 |
| 13 | Dylid adolygu gweithdrefn ysgrifenedig y cyflogwr ynglŷn â hawl a dynodi deiliaid dyletswyddau, i nodi'n glir grwpiau staff, cwmpas yr arfer, a'r gofynion o ran hyfforddiant ar gyfer atgyfeirwyr, ymarferwyr neu weithredwyr sy'n meddu ar hawl. | Ychwanegu swyddogaethau gweithredwyr eglur ynglŷn â biopsi stereotactig i'r weithdrefn ar gyfer meddu ar hawl yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | Anna Burch | Mehefin 2017 |
| 13 | Er nad yw'n ofyniad RhYÏ(DM), dylid darparu Hyfforddiant Codi a Chario Gorfodol ar gyfer pob aelod o staff i sicrhau eu diogelwch pan fyddant yn gweithio yn yr adran. | Cafodd hyfforddiant codi a chario ei gynnal ym mis Rhagfyr 2016, ac mae cynllun hyfforddiant yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr ymddiriedolaeth. | Helen Moore | Chwefror 2017 |
| 13 | Dylid llunio matrics hyfforddiant clinigol i ddarparu trosolwg cyflawn o hyfforddiant staff, gan gynnwys hyfforddiant clinigol a hyfforddiant ar offer, cymwyseddau a chwmpas ymarfer, ac i nodi pan fydd angen | Datblygu matrics hyfforddiant clinigol. | Helen Moore a Liz Edwards | Mehefin 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | diweddariadau a phan fydd y rhain yn cael eu cynnal. | | | |
| 15 | Dylid adolygu a diwygio gweithdrefn y cyflogwr ynghylch cyfiawnhau ac awdurdodi fel sy'n briodol, er mwyn egluro'r trefniadau ar gyfer cyfiawnhau o dan y canllawiau. Rhaid gwneud y weithdrefn hon ar gael i staff a'i hesbonio'n eglur iddynt. | Crynhoi'r canllawiau cyfiawnhau ar gyfer sgrinio o'r Llawlyfr Ansawdd; dylai'r ymarferwyr RhYÏ(DM) perthnasol eu llofnodi a dylid eu gwneud ar gael i staff. Dogfennu'r broses hon yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | Anna Burch | Mehefin 2017 |
| 16 | Mae angen cymeradwyo gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer dynodi, a'i dosbarthu i bob aelod o staff, a rhoi copi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. | Sicrhau bod y weithdrefn ddiwygiedig yn cael ei chymeradwyo i'w chynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd, wedyn dylid ei dosbarthu i staff a chynnwys copi a/neu hypergyswllt yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | Dean Philips | Mehefin 2017 |
| 17 | Mae angen cymeradwyo gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer menywod mewn oed i gael plant, a'i dosbarthu i bob aelod o staff, a rhoi copi yn y Gweithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd. | Sicrhau bod y weithdrefn ddiwygiedig yn cael ei chymeradwyo i'w chynnwys yn y Llawlyfr Ansawdd, wedyn dylid ei dosbarthu i staff a chynnwys copi a/neu hypergyswllt yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | Dean Phillips | Mehefin 2017 |
| 18 | Dylid adolygu gweithdrefn y cyflogwr ar gyfer gwerthusiadau clinigol i gynnwys pwy sy'n | Ychwanegu datganiad eglur am weithdrefnau gwerthuso clinigol (wedi'i dynnu o'r Llawlyfr | Anna Burch | Mehefin 2017 |

| Rhif y dudalen | Yr hyn y mae angen ei wella | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | cynnal y gwerthusiad clinigol, sut maent yn adrodd am yr holl ddelweddau trwy ddefnyddio gweithdrefn ddall dwbl, a beth sy'n digwydd pan fydd set o ddelweddau'n mynd at ganolwr. | Ansawdd) yn rhan o adolygiad 2017 o Weithdrefnau Diogelwch Ymbelydredd Bron Brawf Cymru. | | |
| | **Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | |
| - | Nid oes angen cynllun gwella. | | | |

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):** **Dean Phillips.........................................................................**

**Teitl:** **Pennaeth Rhaglen Bron Brawf Cymru.........................................**

**Dyddiad:** **28 Rhagfyr 2016...................................................................**